TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Gradd Sylfaen mewn Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol



**Yn gryno**

Gall gweithio ym maes ieuenctid a gofal cymdeithasol fod yn hynod o wobrwyol. Mae'r sector a'r gwasanaethau a'r rolau sy'n rhan ohono yn newid yn barhaus ac mae galw gynyddol ar aelodau staff i gyflenwi safonau uchel o ansawdd a gofal tosturiol ac i esblygu'n barhaus er mwyn ennill sgiliau newydd a chynnal sgiliau perthnasol.

Mae'r cymhwyster Gradd Sylfaen mewn Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei ddatblygu i gynnwys y nod, y gwerthoedd a'r egwyddorion angenrheidiol ar gyfer gweithio â phobl ifanc ym maes gofal cymdeithasol yn ogystal â gweithio gyda phlant, teuluoedd a chymunedau.

Wedi'i lleoli yn yr Ysgol Ofal ar ein campws Crosskeys yng Nghaerffili, mae hon yn rhaglen integredig sy'n cyfuno'r cysyniadau damcaniaethol sy'n ymwneud â phobl ifanc, gofalu amdanynt a'u helpu i ofalu am eu hunain wrth weithio yn y sector gofal ehangach.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...rydych chi'n gweithio neu hoffech chi weithio mewn amgylchedd gofal cymdeithasol

...hoffech chi wella eich cyfleoedd gyrfa a hoffech chi symud i swyddi rheolaeth ym maes gofal cymdeithasol

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Caiff ceisiadau ar gyfer y cwrs eu hystyried ar sail unigol. Mae’r gofynion mynediad arferol wedi’u nodi isod, fodd bynnag, os nad ydych chi’n bodloni’r meini prawf hyn, rhoddir ystyriaeth i’ch profiad gwaith a’ch profiad bywyd, felly cysylltwch â ni i drafod hyn.

Mae cyfuniadau o’r cymwysterau isod yn dderbyniol a gallai cymwysterau eraill nad ydynt wedi’u rhestru hefyd fod yn dderbyniol.

Cynnig Safon Uwch arferol – DD

Cynnig BTEC arferol - BTEC Lefel 3 perthnasol a gradd Teilyngdod/Pasio neu radd Pasio/Pasio/Pasio.

Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch yn lle un cymhwyster Safon Uwch ar y graddau a nodwyd ac eithrio unrhyw ofynion sy’n benodol i’r pwnc.

Cynnig Mynediad i Addysg Uwch arferol – Diploma Pasio a 45 o gredydau ar Lefel 3 mewn pwnc cysylltiedig.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

O Radd Sylfaen i Radd Anrhydedd:

BA (Anrh) mewn gweithio gyda Phlant a Theuluoedd*
BSc (Anrh) mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol a Chyfiawnder Ieuenctid
BA (Anrh) mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

*yn amodol ar ail-ddilysu

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i fyfyrwyr sy'n astudio ar y cwrs hwn dalu £45.00 ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.